NUT News 5 June 09 WELSH - 6429w 26/6/09 12:42 Page 1

YR NUT

Newyddion yr NUT

RHIF 5

Haf 2009

Y gymdeithas fwyaf yn Ewrop ar gyfer athrawon

www.teachers.org.uk

Yn gwneud safiad dros addysg – gyda'n gilydd rydym yn gryfach

Mae ein plant, pobl ifanc ac oedolion yn haeddu'r gwasanaeth addysg gorau. I sicrhau hyn credwn fod rhaid cael yr undod proffesiynol mwyaf posibl ymhlith athrawon a darlithwyr yn y sector addysg a'u hundebau.

Ym mis Gorffennaf fe welir lansio cytundeb partneriaeth hansesyddol rhwng yr NUT ac Undeb Prifysgol a Choleg. Fe ddaw'r cytundeb hwn a hanner miliwn o athrawon a darlithwyr at ei gilydd i ymgyrchu dros addysg.

Gweithio dros wasanaeth addysg wedi'i gyllido'n iawn

Mae'r NUT ar flaen y gad wrth fynnu gwasanaeth wedi'i gyllido'n iawn yng Nghymru. Dangosodd ymchwil wedi'i gomisiynu gan NUT Cymru y gwahaniaeth amlwg mewn cyllid ar gyfer pob disgybl wrth gymharu ysgolion yng Nghymru gydag ysgolion yn Lloegr. Mae disgyblion yma o dan anfantais o £494 y flwyddyn o safbwynt yr arian sydd ar gael – yn amlwg mae hon yn sefyllfa annerbyniol ar gyfer ein plant. Mae hyn hefyd yn effeithio'n arwyddocaol ar gyllidebau ysgol, adnoddau ac yn y pendraw swyddi addysgu.

Mae'r NUT wedi darparu tystiolaeth i bwyllgor dethol o aelodau'r cynulliad a gafodd y dasg o ymchwilio'r broblem hon. Mae wedi lobïo'r Senedd, y Gweinidog Addysg ac awdurdodau lleol i ddod â system sy'n gweld plant yng Nghymru yn gyson yn dlotach na'u cymheiriaid ar draws y ffin i ben.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol yn awgrymu methodoleg newydd o gyllido a fydd yn sicrhau bod yr holl arian a glustndodir ar gyfer addysg yn cael ei drosglwyddo yn uniongyrchol i ysgolion. Os yw Cymru i gyrraedd y nod o sicrhau gwasanaeth addysg o'r radd flaenaf, fydd dim byd llai yn gwneud y tro.

Ni fu erioed amser gwell i ymuno â'r NUT

Yr NUT yw'r unig undeb athrawon sy'n ymgyrchu'n barhaus am undod proffesiynol ac yn ymgyrchu'n weithredol ar yr holl faterion sy'n bwysig i athrawon. Ond tra bod undebau ar wahân yn dal i fodoli rydym yn annog athrawon i ymuno â'r mudiad athrawon mwyaf dylanwadol yn Ewrop.

Os nad ydych eisoes yn aelod o'r NUT ewch i weld eich cynrychiolydd ysgol, ymunwch ar-lein, neu ffoniwch ein llinellau brys nawr.

Meddai Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT:

"Mae'n bleser gen i gyhoeddi ein partneriaeth newydd gyda Undeb Prifysgol a Choleg ar adeg pan fo siarad ag un llais yn hanfodol i bawb ym myd addysg. Bydd hannner miliwn o bobl broffesiynol yn gwneud safiad dros addysg yn rym na ellir ei ddiystyru."

Ein nod: un undeb ar gyfer athrawon i gyd

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669** neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk Printiwyd gan Victoria House Printing Co. Ltd (TU throughout) – 6429w/05/09